

Adolygiad o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Aseu yng Nghymru: Gweithredu

Tachwedd 2016

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Adolygiad o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru: Gweithredu

Rhagarweiniad

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae UCAC yn hynod gefnogol i'r gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru, ac wedi canmol adroddiad ac argymhellion Yr Athro Donaldson. Serch hynny, rydym yn bryderus iawn o'r broses o ymgyrraedd at y dyheadau yn Dyfodol Llwyddiannus. Dyma gyfle i gael cwricwlwm unigryw i Gymru a theimlwn fod y gwaith yn rhy fawr ac yn llawer rhy bwysig i fethu. Teimlwn felly, y dylem nodi'n pryderon fel 'rhybudd cynnar' fel petai, ac y dylid ymgeisio i ddatrys y problemau hyn ar fyrder.

Mae pryder gwirioneddol gennym am ansawdd y cynllunio strategol ynghyd â'r diffyg cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r amserlen. Yn anffodus, mae nifer o gynlluniau addysg diweddar wedi cael eu hepgor yn gymharol fuan wedi'u cyflwyno; daw'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Fframwaith Sgiliau i'r meddwl i enwi dim ond dau.

Mae datblygiadau'r cwricwlwm newydd i Gymru yn rhy bwysig ac yn cynnig cyfle rhy arbennig i fethu. Cynhaliodd UCAC arolwg ym mis Hydref 2016 oherwydd bod pryderon am y Cwricwlwm newydd yn codi'n gyson o drafod gydag aelodau. Cafwyd ymateb i'r arolwg gan 253 athro dosbarth a 45 arweinydd ysgol.

Mae canlyniadau'r arolwg yn cadarnhau'r pryderon hynny.

Cyfraniad y rhwydwaith o Ysgolion Arloesi at y gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd

Diffyg cyfathrebu a gwybodaeth.

Mae'r arolwg yn cadarnhau yr argraff cawsom mewn trafodaethau gydag aelodau nad yw gwybodaeth am waith yr ysgolion arloesi yn cael ei rhannu'n effeithiol. Mae yna deimlad o ansicrwydd am rol yr ysgolion hyn a'r gwaith maent yn cyflawni.

Cyfyd llawer o'r pryderon oherwydd diffyg gwybodaeth dybryd ac mae'n hollol hanfodol, er mwyn llwyddiant y paratodau ar gyfer Cwricwlwm newydd, fod systemau gwell yn cael eu gosod yn eu lle er mwyn rhannu gwybodaeth a sicrhau fod y wybodaeth yn cyrraedd y gweithlu. Rhaid sicrhau cyfathrebu gwell a llawer mwy pwerus, gyda negeseuon clir a llai o jargon.

Mae angen sicrhau atebion i gwestiynnau allweddol; e.e pa ddiwyg fydd i'r cwricwlwm, pa effaith fydd yn cael ar strwythurau'r ysgol (pynciau unigol), yr effaith ar asesu, yr effaith ar gymhwysterau. Cyfyd y pryderon hyn o ddiffyg rhannu gwybodaeth ac o ddiffyg cynllunio strategol lle nad oes atebion ar gael i'r cwestiynnau ar hyn o bryd. Sylweddolwn nad yw'r bai am ddiffyg rhannu gwybodaeth bob tro yn disgyn ar Lywodraeth Cymru ond rhaid sicrhau fod systemau yn eu lle fel bod pob aelod o'r gweithlu yn ymwybodol o ddatblygiadau. Fe fyddai blog newydd yn ddefnyddiol ond mae angen sicrhau ffordd o gyrraedd pob aelod o'r gweithlu.

Mae ein haelodau'n credu y dylid sicrhau fod pawb yn rhan o'r prosiect.

Mae diffyg eglurdeb pendant ynglŷn â rôl yr Ysgolion Arloesol, efallai oherwydd diffyg cyfathrebu. Rydym yn bryderus ynglŷn â'r arweiniad mae aelodau'n derbyn. Yn ein harolwg diweddar, dim ond 50% o athrawon oedd yn ymwybodol fod eu hysgol yn rhan o'r gwaith 'arloesol' ai peidio. Mae'n bryder gwirioneddol gennym, felly, nad yw'r neges wedi cael ei ledaenu'n effeithiol. Rydym yn cydnabod y gallai hynny, wrth reswm, fod yn wendid ar yr ysgolion eu hunain, serch hynny mae'n bryder gwirioneddol.

Mae'n bryder gennym, hefyd, fod athrawon yn gweithio'n annibynnol mewn sawl ysgol ac yn paratoi gwaith ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae enghreifftiau o athrawon yn cyflawni gwaith sylweddol dim ond i'r gwaith gael ei ddiystyru gan arbenigwyr allanol.

Nododd 33% o arweinwyr ysgolion eu bod yn derbyn cefnogaeth ddigonol ar gyfer y gwaith arloesol. I'r gwrthwyneb wrth reswm, golyga hyn fod 67% yn teimlo nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol. Mae teimlad cyffredinol yn bodoli bod diffyg arweiniad a diffyg cyfarwyddiadau yn gwneud y gwaith yn anoddach. Mae'r arweinwyr yn nodi bod teimlad cyffredinol y gallai eu hysgolion wneud cyfraniad llawer mwy gwerthfawr o dderbyn arweiniad cadarnach.

Daeth adwaith cadarnhaol iawn o'r Ysgolion Creadigol Arweiniol a nodwyd fod y broses yn eu hatgoffa pam yr aed i'r proffesiwn yn y lle cyntaf.

Y cydgysylltiad rhwng systemau dysgu proffesiynol effeithiol a'r gweithlu addysg ac addysg a hyfforddiant cychwynol i athrawon;

Cred UCAC ei bod yn holl bwysig bod egwyddorion Donaldson yn cael eu cyflwyno i fyfyrwyr fel rhan o'u hyfforddiant cychwynol a hynny ar fyrder. Bydd myfyrwyr sydd yn ein prifysgolion nawr yn cyrraedd y dosbarth pan fydd y cwricwlwm newydd yn cael ei lawn weithredu ar lawr y dosbarth. O sicrhau fod yr hyfforddiant yn effeithiol gall athrawon newydd gymhwyso gyrraedd y dosbarth yn hollol hyderus. Lle bo ansicrwydd yn bodoli mewn ysgolion, mae'n bosib y gallai'r Athrawon Newydd Gymhwyso fod yn allweddol i lwyddiant sefydlu'r cwricwlwm newydd.

Teimla ein haelodau y bydd angen hyfforddiant sylweddol i'r gweithlu cyfan os yw'r cwricwlwm newydd am fod yn llwyddiannus. Mae hon yn dasg enfawr a bydd angen adnoddau sylweddol. Cred UCAC fod hyn yn cyfiawnhau diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd ychwanegol. Mae'n wir ofid gennym na fydd y cyflwyniad yn llwyddiannus oni bai y gwelir hyfforddiant trylwyr fel bo'r gweithlu wedi'u hyfforddi, yn hyderus ac yn barod.

Mae UCAC yn cydnabod yr anghyfleustra i rieni ond mae'r angen am hyfforddiant yn bwysig dros ben. Ar adeg pan mae arian yn brin, mae defnydd da o ddiwrnod HMS yw ffordd cost effeithiol i ysgol sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant safonol, perthnasol. Cred UCAC, felly, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymarfer yr hawl i ychwanegu at y nifer o ddiwrnodau HMS eleni a than fod y Cwricwlwm newydd yn ei le.

Trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu a phennu rôl y Bwrdd Cynghori Annibynnol, y Bwrdd Newid a'r Grŵp o Randdeiliaid Strategol;

Ar y cyfan mae UCAC yn gefnogol i'r trefniadau a sefydlwyd ar gyfer llywodraethu. Yn anffodus cyfyd ein pryderon o'r modd mae'r drefn honno yn cael ei gweithredu. Mae'r egwyddor fod y cwricwlwm newydd yn cael ei lunio ar lawr y dosbarth gan ymarferwyr i'w ganmol, ond nid yw'r wybodaeth o'r datblygiadau pwysig yma wedi cyrraedd y gweithlu. O ganlyniad mae anwybodaeth yn rheoli.

Cred UCAC y byddai'n fanteisiol fod crynodeb o drafodaethau'r grwpiau hyn yn cael ei rannu'n ehangach. Dylid tynnu cynifer ag sy'n bosib i mewn i'r drafodaeth ar ddyfodol Addysg yng Nghymru gan godi eu hymwybyddiaeth o'r datblygiadau er mwyn sicrhau perchnogaeth y gweithlu ar yr adolygiad a fydd yn y pen draw yn sicrhau llwyddiant y cwricwlwm newydd.

Rhydd y drefn lywodraethu gyfle i nifer o randdeiliad fynegi barn am ddatblygiadau yn y broses. Mae UCAC yn croesawu trafodaeth o safon ar addysg yng Nghymru, rhywbeth nad sydd wedi bodoli i bob pwrpas cyn hyn, serch hynny mae gennym bryderon am arweinyddiaeth rhai o'r grwpiau hyn. Mae'n bryder bod yr arweiniad yn dod gan weision sifil yn hytrach nag addysgwyr. Tra gwyddom fod rhaid i weision sifil fod yn rhan bwysig o'r broses, daeth yn fater o ofid fod diffyg gwybodaeth o'r modd mae ysgolion yn gweithredu a gall hyn lesteirio'r broses.

Materion eraill sy'n peri pryder a/neu sy'n bwysig yng nghyswllt datblygu cwricwlwm newydd i Gymru.

Mewn arolwg diweddar mae ein haelodau yn nodi fod y Digwyddiadau Cenedlaethol a gynhelir i rannu gwybodaeth yn hynod amhoblogaidd ganddynt ac mae 'diffyg hyder cyffredinol yn yr arweiniad' a dderbynnir. Mae sefyllfa fel hyn yn bryderus dros ben.

Mae'r amserlen a nodwyd ar gyfer cyflwyniad y Cwricwlwm yn pryderu ein haelodau. Mewn ymateb i'r holiadur mae 50% o aelodau a ymatebodd yn nodi fod ganddynt ychydig neu lai o hyder y bydd y cwricwlwm yn barod erbyn 2018; disgynna hyn i 32% wrth newid y disgwyliad i'r amserlen i'r cwricwlwm fod yn ei le erbyn 2021.

Ydy'r dyddiadau a nodwyd ar gyfer cyflwyniad cwricwlwm newydd + trefniadau asesu + cymwysterau newydd eto, o bosib, + ymarfer - sef 2018/2021 - yn realistig?

Mae nifer o aelodau ac arweinwyr ysgolion wedi nodi pryderon am lwyth gwaith ac o fod dan bwysau mawr; yn y sector uwchradd, maent wedi nodi'r angen i flaenoriaethu cymwysterau allanol.

Nodwyd pryder mawr y bydd y proffesiwn yn cael ei feio os bydd y cynlluniau'n methu.

Mae 75% o'r rhai o holwyd gydag ychydig neu lai o hyder y bydd y newidiadau yn cael eu gweithredu gyda hyfforddiant digonol fel bo ysgolion yn gallu gweithredu yn effeithiol. (Cyfyd yr ofnau o'r wybodaeth am ddiffyg ariannu, gweithredu ar ddiwygiadau cymhwysterau, llwyth gwaith ayyb)

I Gloi

Tra mae UCAC yn croesawu'n fawr y datblygiadau parthed Cwricwlwm Newydd i Gymru, mae gennym wir ofidiau yn y modd mae gwybodaeth yn cael ei rannu i'r gweithlu ac er mwyn sicrhau llwyddiant y datblygiadau pwysig hyn mae'n holl bwysig bod y problemau cyfathrebu yma yn cael eu datrys ar fyrder. Ble mae anwybodaeth, mae amheuaeth a drwgdybiaeth yn gallu codi eu pen a theimlwn fod angen i'r Llywodraeth weithredu i oresgyn hyn trwy:

- Cyfathrebu gwell a llawer mwy pwerus fel bo gwybodaeth yn cael ei rannu'n effeithiol ac atebion clir i gwestiynau allweddol sydd â pherthnasedd allweddol i'r gweithlu.
- Cynllunio strategol gwell – creu cofrestr risg ar gyfer y broses ddatblygol a gweithredu cwricwlwm gan gymryd i ystyriaeth materion llwyth gwaith ysgolion a'u heffaith ar atebolrwydd a pherfformiad.
- Cefnogaeth well i'r ysgolion arloesol.
- Gwybodaeth glir a thrylwyr o'r modd y gweithredir hyfforddiant ar gyfer y cynlluniau



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

 facebook.com/AthrawonCymru  twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru

